

Maes Llafur Cytûn Sir  
Gaerfyrddin ar gyfer  
Crefydd, Gwerthoedd a  
Moeseg 2022

**Carmarthenshire**  
**Agreed Syllabus for**  
**Religion, Values and**  
**Ethics 2022**



[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)  
[carmarthenshire.gov.wales](http://carmarthenshire.gov.wales)

#### Cynnwys:

1. Rhagymadrodd - Cyfarwyddwr Addysg
2. Rhagair – Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg Sir Gaerfyrddin
3. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru
4. Y gofynion cyfreithiol
5. Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru
6. Cyfrifiad 2011
7. Prosesau llunio ar y cyd
8. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - Nodau
9. Canllawiau awgrymedig ar ddyrannu amser
10. Amcanion y Maes Llafur Cytûn
11. Dysgu ac addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
12. Cynhwysiant
13. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
14. Cymru wrth-hiliol
15. Cynefin
16. Datblygiad Ysbrydol
17. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg 3-16
  - (a) Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
  - (b) Cynllunio cwricwlwm amryfath, beirniadol a gwrthrychol
  - (c) Tablau crynhoi gwybodaeth graidd
18. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg 14-16
19. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg 16-19
20. Asesu a dilyniant

#### Atodiad:

- Geirfa
- Deunyddiau enghreifftiol
- Diolchiadau / Aelodau'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

## 1. Rhagymadrodd - Cyfarwyddwr Addysg

Mae'n bleser gennyf rannu gyda chi ein Maes Llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd yn cefnogi pob ysgol i ddylunio a darparu adnoddau ar gyfer eu cwricwlwm CGM.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o faes dysgu'r Dyniaethau, a chan ddefnyddio'r datganiadau 'beth sy'n bwysig', ynghyd â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, bydd y maes llafur hwn ochr yn ochr â chanllawiau CGM Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ysgolion yn hwyluso'r addysgu a'r cyflwyno o CGM lluosog, gwrthrychol a beirniadol.

Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gymorth i ddatblygu ein dysgwyr yn bobl ifanc sy'n llythrennog yn grefyddol ac yn ddiwylliannol. Trwy ddarpariaeth CGM o ansawdd uchel a rhagorol, bydd ein dysgwyr o Sir Gaerfyrddin yn barod i gymryd eu lle fel dinasyddion egwyddorol a gwybodus yn ein cymdeithas sy'n newid yn gyflym.

Fel elfen orfodol o'r cwricwlwm, mae'r Maes Llafur Cytûn hwn wedi'i ysgrifennu yn unol â deddfwriaeth ac felly mae'n rhaid i bawb sy'n gyfrifol am gynllunio cwricwlwm CGM roi sylw dyledus i'r maes llafur hwn. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel cynllun cwricwlwm nac ychwaith fel cynllun gwaith, mwy yn faes llafur sy'n amlinellu parthau'r pwnc ac un y gellir ei ddefnyddio, gyda sybsidiaredd ac ymreolaeth yr ysgol i ddatblygu cwricwlwm pwrpasol pob ysgol.

Os oes angen cymorth arnoch gyda dyluniad eich cwricwlwm CGM, addysgeg neu adnoddau, cysylltwch â Chyngor Ymgynghorol Sefydlog Crefydd Gwerthoedd a Moeseg (CYSCGM) Sir Gaerfyrddin a all eich cefnogi i'ch llywio tuag at ragoriaeth gyda'ch darpariaeth CGM.

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg

## 2. Rhagair gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg Sir Gaerfyrddin

I holl ysgolion Sir Gaerfyrddin,

Mae'n bleser gennym rannu ein Maes Llafur Cytûn CGM 2022 ar gyfer Sir Gaerfyrddin gyda chi. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg nid yn unig yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru ond mae ganddi hefyd rôl arwyddocaol iawn wrth ganiatáu i'n dysgwyr gyflawni pedwar diben y cwricwlwm. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y profiadau addysgol gorau oll yn Sir Gaerfyrddin ac rydym yn hyderus y bydd y maes llafur CGM hwn yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cwricwlwm CGM heriol, cyfoethog a chadarn.

Mae CYSCGM Sir Gaerfyrddin yn llwyr gefnogi addysgu a dysgu CGM yn Sir Gaerfyrddin sy'n hwyluso dealltwriaeth ddofn o grefydd, ffydd a seciwlariaeth yn y gymdeithas sydd ohoni, a rhagwelir y bydd y maes llafur hwn yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau angenrheidiol i ddysgwyr ddatblygu eu golwg eu hunain ar y byd a chanfod eu ffordd yn ein byd aml-grefyddol ac aml-seciwlar.

Dymunwn lwyddiant mawr i chi gyda chynllun eich cwricwlwm CGM a chynigiwn ein cefnogaeth a chynghor yn llawn, pe bai ei angen arnoch wrth i chi weithredu'r maes llafur hwn ar gyfer ein dysgwyr Cwricwlwm i Gymru.

### 3. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru

(Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru)

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol y Cwricwlwm i Gymru ac yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r Maes yn cwmpasu Astudiaethau Busnes, Daearyddiaeth, Hanes, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Astudiaethau Cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin ac mae ganddynt eu corff ar wahân eu hunain o wybodaeth a sgiliau.

Gall Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru gynnig cyfraniad neilltuol tuag at wireddu'r [pedwar diben](#) ar gyfer pob dysgwr. O ganlyniad, mae'r maes llafur hwn yn cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i ddatblygu darpariaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n paratoi dysgwyr yng Nghymru ar gyfer bywyd a gweithio mewn byd sy'n newid yn gyflym ac sy'n amrywiol, fel dinasyddion cyfrifol a gwybodus.

Daw canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o dan Faes y Dyniaethau ac maent yn ymgorffori amrywiaeth o ddulliau disgyblaeth y gall dysgwyr eu defnyddio i ymwneud yn feirniadol ag ystod eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol. Er enghraifft, gall dulliau disgyblaeth sy'n berthnasol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg gynnwys astudiaethau crefyddol, athroniaeth, diwinyddiaeth, cymdeithaseg, seicoleg, ac anthropoleg. Ceir perthynas gref hefyd rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r disgyblaethau eraill o fewn y Dyniaethau yn ogystal â Meysydd eraill.

Mae cysyniadau'n bwysig mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg oherwydd eu bod yn syniadau canolog sy'n helpu dysgwyr i wneud synnwyr o brofiad dynol, y byd naturiol a'u lle eu hunain o'i fewn, a'u dehongli. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i archwilio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy gyfrwng amrywiaeth o is-lensys sy'n ffurfio lens disgyblaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r cysyniadau a'r is-lensys hyn wedi'u nodi yn y canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg hyn.

Yn y Cwricwlwm i Gymru, mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn amryfath, o ran cynnwys ac addysgeg; nid yw'n ymwneud â gwneud dysgwyr yn 'grefyddol' neu 'anghrefyddol'. Daw'r ymadrodd 'gwrthrychol, beirniadol ac amryfath' o

gyfraith achosion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn sicrhau bod rhaid cynnig cyfleoedd i bob dysgwr trwy gyfrwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ymwneud â gwahanol grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn eu bro ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach.

#### 4. Y gofynion cyfreithiol

(Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru)

Gellir dod o hyd i grynodedeb o'r ddeddfwriaeth [yma](#).

Datblygwyd Maes Llafur Cytûn Sir Gaerfyrddin yn unol â'r ddeddfwriaeth gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (2021) ynghyd â Deddf Addysg (1996) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 1996.

Mae Maes Llafur Cytûn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchu credoau crefyddol a hefyd greddoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol o fewn ystyr Erthygl 2 Protocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (A2P1). Mae'r rhain yn cynnwys credoau megis dyneiddiaeth, anffyddiaeth a seciwlariaeth. Nid yw hynny'n rhestr gynhwysfawr ond dim ond enghreifftiau o'r math o greddoau sydd o fewn cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r newidiadau hyn yn gwneud yn eglur yr hyn sydd eisoes yn ofynnol yn ôl y gyfraith mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg amryfath.

#### **Ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol heb gymeriad crefyddol**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod wedi'i gynllunio gan roi ystyriaeth i'r maes llafur cytûn. (Y "maes llafur cytûn" yng nghyd-destun yr Atodlen yw'r maes llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 375A o Ddeddf 1996 i'w ddefnyddio mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg hon gael ei gweithredu ar gyfer pob dysgwr.

### **Ysgolion Sefydledig ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir sydd â chymeriad crefyddol**

Ar gyfer yr ysgolion hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod wedi'i chynllunio gan roi ystyriaeth i'r maes llafur cytûn.

Fodd bynnag, yn achos yr ysgolion hyn, mae gofyniad ychwanegol sydd ond yn berthnasol os nad yw'r ddarpariaeth sydd wedi'i chynllunio ar gyfer y maes llafur cytûn yn cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol, neu ddaliadau ei chrefydd neu enwad crefyddol.

### **Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol**

I'r ysgolion hyn mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad.

Unwaith eto, ceir gofyniad ychwanegol. Ar gyfer ysgolion o'r math hwn, mae'r gofyniad ychwanegol yn berthnasol dim ond os nad yw'r ddarpariaeth sydd wedi'i chynllunio (hynny yw, sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau crefydd neu enwad yr ysgol) yn cyd-fynd â'r maes llafur cytûn. Yn yr achos hwn, rhaid i gwricwlwm yr ysgol hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd wedi'i chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytûn.

### **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16**

Ni fydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16 yn orfodol mewn ysgolion mwyach, yn rhinwedd darpariaethau'r Ddeddf. Yn unol ag adran 61 o'r Ddeddf, bydd pob dysgwr dros 16 oed yn awr yn gallu dewis astudio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, lle gynt roedd yn ofynnol i bob dysgwr yn y chweched dosbarth astudio addysg grefyddol. Os yw dysgwr yn dewis astudio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yna rhaid i'r ysgol neu'r coleg ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn amryfath. Mae'r dull hwn yn gyson â'r egwyddor y dylai dysgwyr sy'n ddigon aeddfed allu gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'u dysgu eu hunain. Bydd hyn yn berthnasol i bob dysgwr sy'n dilyn y Cwricwlwm i Gymru.

Pan fo dysgwr yn gofyn am astudio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol ag adran 61 o'r Ddeddf, rhaid cynllunio'r ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel ei bod yn:

- adlewyrchu'r ffaith fod y traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn rhai Cristnogol yn bennaf a hynny gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn cael eu harddel yng Nghymru.

Nid yw adran 61 o'r Ddeddf yn atal ysgol rhag gosod gofyniad bod pob dysgwr yn ei chweched dosbarth yn ymgymryd â dosbarthiadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gorfodol; ac nid yw ychwaith yn atal ysgol sy'n mabwysiadu'r dull hwn rhag darparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg orfodol i'r chweched dosbarth sy'n cyd-fynd â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol, neu ddaliadau ei chrefydd, neu enwad crefyddol ("Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol"). Mae cynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol o'r fath yn parhau i fod yn fater i'r ysgol gyda'r cwricwlwm yn cael ei gynllunio yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd.

Mae'r maes llafur hwn yn cyfeirio at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer dysgwyr 3-16 oed. Os yw dysgwyr ôl-16 yn gofyn am ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a bod angen cymorth, cysylltwch â [Chyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#) Sir Gaerfyrddin a gallant roi cynghor, os oes angen.

### **Yr hawl i dynnu'n ôl yn y Cwricwlwm i Gymru**

O fis Medi 2022, ni fydd hawl gan rieni i eithrio o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn perthynas â phob dysgwr hyd at ac yn cynnwys blwyddyn 6, gan y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu gan bob ysgol gynradd a lleoliad o'r dyddiad hwn. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i ddysgwyr ym mlwyddyn 7 y mae eu hysgolion wedi mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd wedyn yn cael ei weithredu wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn dilynol.

Cysylltwch â [Chyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#) Sir Gaerfyrddin am eglurhad neu gefnogaeth os oes angen.

## 5. Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru

(Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru)

Mae'r canllawiau i'w gweld [yma](#). Mae'r maes llafur hwn i'w ddarllen ar y cyd â'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a'i ddefnyddio ochr yn ochr â nhw.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd yn rhan o Faes y Dyniaethau yn statudol ac yn cael eu cyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) a'u cynllunio i gynorthwyo'r rheiny sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel rhan o'r cwricwlwm ysgol.

## 6. Cyfrifiad 2011

DS: Bydd hyn ei ddiweddarau pan fydd data 2021 ar gael.

Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth amrywiol. Yng Nghyfrifiad 2011, nododd 62% o'r ymatebwyr eu bod yn Gristnogion, 0.3% eu bod yn Fwslimiaid, 0.2% eu bod yn Fwdhyddion, 0.2% eu bod yn Hindŵiaid, 0.07% eu bod yn Sikhiaid a 0.04% eu bod yn Iddewon. O'r boblogaeth sy'n weddill, dywedodd 29% nad oedd ganddynt unrhyw grefydd, dywedodd 0.5% eu bod yn dilyn crefydd arall ac ni wnaeth 8% ymateb. Mae llawer o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad yn ysgolion Sir Gaerfyrddin. Mae ysgolion Sir Gaerfyrddin felly yn amrywiol iawn, a bydd gwerthfawrogi'r amrywiaeth hon a'r gwahaniaethau hyn yn ffactorau pwysig i ysgolion eu hystyried wrth fynd ati i gynllunio eu cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

| Religion           | England and Wales % | Wales % | Carmarthenshire |
|--------------------|---------------------|---------|-----------------|
| Buddhist           | 0.4                 | 0.3     | 0.2             |
| Christian          | 59.3                | 57.6    | 62              |
| Hindu              | 1.4                 | 0.3     | 0.2             |
| Islam              | 4.8                 | 1.5     | 0.3             |
| Jewish             | 0.5                 | 0.1     | 0.04            |
| Sikh               | 0.8                 | 0.1     | 0.07            |
| No religion        | 25.1                | 32.1    | 29              |
| Any other religion | 0.4                 | 0.4     | 0.5             |
| Did not answer     | 7.2                 | 7.6     | 8               |

## 7. Cyd-lunio'r Maes Llafur Cytûn

Yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r [Plentyn](#), defnyddiwyd llais disgyblion i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Maes Llafur Cytûn Sir Gaerfyrddin ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a helpu i'w lunio. Mae anghenion ysgolion ac ymarferwyr Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg hefyd wedi cael eu harchwilio ac mae cynrychiolwyr ffydd CYSAG wedi cael cyfle i rannu'r hyn 'nad yw'n agored i drafodaeth' ynglŷn â'u ffydd a gwybodaeth graidd amdani. Mae hwn felly yn Faes Llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n wirioneddol leol ac a luniwyd ar y cyd.

## 8. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - Nodau

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r pedwar diben

Wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru y mae'r [pedwar diben](#), sef y gywyr allweddol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac, fel y cyfryw, dylent fod yn ganolbwynt i'r holl waith o ddatblygu'r cwricwlwm. Mae'r pedwar diben yn nodi'r dyheadau ar gyfer pob dysgwr.

Erbyn eu bod yn 16 oed, dylent fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Ym Maes y Dyniaethau, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm. Y pedwar diben yw:

1. Mae holi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, y presennol a'r dyfodol.
2. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu gweld, eu dehongli a'u cynrychioli mewn ffyrdd gwahanol.
3. Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddynamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
4. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac wedi'u siapiau gan weithredoedd a chredoau dynol.
5. Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymwneud â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.

Bydd addysg ardderchog mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cefnogi llythrennedd crefyddol dysgwyr. Mae diffinio llythrennedd crefyddol yn gymhleth a dadleuol. At ddiben y maes llafur, rydym yn canolbwyntio ar lythrennedd crefyddol gan ei fod yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth am argyhoeddiadau/byd-olygon [athronyddol](#) crefyddol ac anghrefyddol Abertawe, Cymru a'r byd a'u dealltwriaeth ohonynt. Trwy gynllunio effeithiol, cynllunio cwricwlwm ac addysgu o safon uchel, bydd dysgwyr nid yn unig yn cael cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth am grefydd ac argyhoeddiadau/byd-olygon athronyddol anghrefyddol, ond hefyd yn dysgu sut i gynnal sgrysiâu a dyfarniadau cytbwys a gwybodus. Bydd dysgwyr sy'n llythrennog yn grefyddol yn cael eu galluogi i gymryd eu lle yn hyderus yn ein cymdeithas aml-grefyddol ac aml-seciwlar amrywiol, byddant yn gallu meddwl yn annibynnol, bod yn fyfyrion a gwerthuso'n deg ac yn feirniadol. Byddant yn ddinasyddion gwybodus a moesegol sydd â'r gallu i fod yn aelodau gweithredol a chyfranogol o'u cymunedau, boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang.

### 9. Canllawiau awgrymedig ar ddyrannu amser

Mae gan ysgolion ddatganoliaeth dros gynllunio eu cwricwlwm. Mae'n benderfyniad i bob ysgol ei wneud ynglŷn â sut y bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei gyflwyno. Mae'r opsiynau'n cynnwys:

- (a) Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i ymgorffori'n llawn ym Maes Dysgu'r Dyniaethau;
- (b) Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i gyflwyno trwy gyfrwng themâu trawsgwricwlaidd neu ryngddisgyblaethol;
- (c) Cyd-weithio rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a phynciau eraill a gaiff eu harchwilio o fewn y cwricwlwm gan hefyd gynnal presenoldeb ar wahân fel pwnc penodol.

Pa bynnag ddull sy'n cael ei gymryd gan ysgolion unigol, dylai'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei brofi trwy ddull gwrthrychol, beirniadol ac amryfath a dylai sicrhau bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gydradd â'r pynciau eraill o fewn maes y Dyniaethau.

| Gwrthrychol                                                                                                                                                                                                             | Beirniadol                                                                                                                           | Amryfath                                                                                                                                   |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dylai Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg archwilio realiti ffeithiau yn ymwneud â chrefydd a chredoau yn Sir Gaerfyrddin, Cymru a'r byd heddiw. Ni ddylai gael ei ddylanwadu gan deimladau personol na sefydliadol o gredoau. | Dylai Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg annog dysgwyr i feddwl yn ddwfn a gwneud barn fedrus yn y ffordd y maent yn archwilio gwirionedd. | Dylai Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg helpu dysgwyr i archwilio a gwerthfawrogi ystod amrywiol o syniadau, credoau, arferion a thraddodiadau. |

## 10. Amcanion y Maes Llafur Cytûn

Nid yw'r maes llafur cytûn wedi'i gynllunio i fod yn gynllun gwaith, ond yn hytrach yn ganllaw defnyddiol a phwynt cyfeirio cyfreithiol i ysgolion i'w cynorthwyo i gynllunio cwricwlwm priodol a pherthnasol i'w dysgwyr, sy'n cynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau. Y bwriad yw defnyddio'r maes llafur hwn ar y cyd â'r canllawiau

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae dull y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru'n seiliedig ar yr egwyddor datganoliaeth ac, fel y cyfryw, mae'r Maes Llafur Cytûn yn cydnabod ac yn adlewyrchu ymreolaeth pob ysgol a lleoliad wrth wireddu ei gwricwlwm ei hun.

Mae'r Maes Llafur Cytûn wedi'i ysgrifennu i rymuso a chynorthwyo athrawon ac ysgolion i wneud darpariaeth i bob disgybl fel ei bod nid yn unig ateb pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, ond hefyd yn paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd o fewn ein byd aml-grefyddol ac aml-seciwlar. Mae'r Maes Llafur Cytûn yn cydnabod, er y dylai'r prif grefyddau a'u traddodiadau yn Sir Gaerfyrddin a Chymru gael eu dysgu ym mhob ysgol, bod credoau eraill (gan gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol megis dyneiddiaeth ac anffyddiaeth) bellach yn rhan gydnabyddedig o fywyd o fewn ardaloedd lleol yng Nghymru a thu hwnt. Adlewyrchir hyn yn y Ddeddf sy'n dweud hyn am y Maes Llafur Cytûn:

- rhaid iddo adlewyrchu'r ffaith fod y traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn rhai Cristnogol yn bennaf a hynny gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- rhaid iddo hefyd adlewyrchu'r ffaith bod ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn cael eu harddel yng Nghymru

Mae'r rheiny sy'n gyfrifol am gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gyfrifol am sicrhau bod yr addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir yn eu lleoliad yn cadw at y ddeddfwriaeth hon. Gall [Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#) Sir Gaerfyrddin roi cynngor os oes angen.

### 11. Dysgu ac addysgu o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Wrth ddatblygu'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a chyfleoedd dysgu ac addysgu i ddysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, dylid ystyried:

1. Atal dysgwyr rhag datblygu syniadau anghywir am grefydd ac argyhoeddiadau athronyddol/byd-olygon anghrefyddol. Mae hyn yn golygu bod angen i'r cwricwlwm fod wedi'i seilio ar astudiaeth academiaidd ac ysgolheictod.
2. Datblygu cwricwlwm sy'n caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn digon o fanylder ac osgoi ymdrin mewn modd arwynebol â'r cynnwys a ddewiswyd.
3. Creu cwricwlwm sydd â strwythur a dilyniant da a fydd yn cefnogi dysgwyr yn eu datblygiad drwy'r camau dilyniant.

## 12. Cynhwysiant

(Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru)

Dylid cynorthwyo pob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac archwilio eu potensial mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Dylai ysgolion a lleoliadau sy'n darparu addysg i ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rheiny sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion pob dysgwr wrth gynllunio a darparu cyfleoedd dysgu effeithiol mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Gall yr ystyriaethau gynnwys, er enghraifft:

- dulliau gweithredol, aml-synhwyrdd o gyflwyno dysgu newydd mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ystyried anghenion a diddordebau amrywiol pob dysgwr.
- cyfleoedd cynhwysol i ddysgwyr brofi parch a rhyfeddod mewn amrywiaeth o amgylcheddau.
- defnyddio amrywiaeth o ysgogiadau, megis arteffactau crefyddol ac anghrefyddol a chyd-destunau perthnasol.
- cael yr holl ddysgwyr i gyfranogi'n llawn gan gynnwys y rheiny sy'n defnyddio modd o gyfathrebu heblaw lleferydd.
- gweithgareddau sy'n cynnwys pob dysgwr y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft, wrth ymweld ag addoldai lleol a mannau arbennig eraill o bwys.

Wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dylai ymarferwyr a gofalgwyr fod yn ymwybodol o ymagwedd yr ysgol neu'r lleoliad tuag at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau.

Am ragor o wybodaeth am ADY gweler y canllawiau ar [Ar Drywydd Dysgu](#) a'r Côt Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru 2021.

### **Addysg mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir**

Dylid ystyried darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliad meithrin nas cynhelir a ariennir fel rhan o ddull cyfannol cyffredinol o ddysgu a datblygu. Mae'r adran 'Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' uchod yn darparu rhagor o wybodaeth am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer yr oedrannau 3 i 16 oed, i gefnogi ymarferwyr yn y lleoliadau hyn gyda'r dull cyfannol hwn.

Mae dysgwyr ifanc yn chwilfrydig tu hwnt; maent yn mwynhau archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain a chydag eraill, ac maent yn naturiol yn gofyn cwestiynau am fywyd a'r byd

o'u cwmpas. Drwy gynnal gweithgareddau deniadol, ymarferol, integredig yn y cyfnod hwn o ddysgu, gallant ddechrau dysgu mwy amdanynt eu hunain, pobl eraill a'r byd ehangach.

Dylai addysgeg effeithiol, sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr, sy'n ymatebol, yn ddynamig ac wedi'i wreiddio mewn perthnasoedd cryf, fod yn ganolog i ddatblygiad darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliad. Drwy chwarae, gall dysgwyr ddatblygu eu syniadau, eu barn a'u teimladau gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd, sy'n gallu helpu i lywio eu golwg ar y byd. Mae treulio amser yn yr awyr agored yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol dysgwyr, yn ogystal â'u llesiant. Mae bod yn yr awyr agored hefyd yn eu helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r angen i ddangos gofal a pharch at bethau byw.

Mae dysgwyr yn y cyfnod hwn o ddysgu yn dechrau dod i ddeall y cysyniad o 'wahaniaeth'. Dylai ymarferwyr eu hannog i rannu eu gwybodaeth am eu credoau, eu treftadaeth a'u traddodiadau eu hunain a'u profiadau ohonynt, yn ogystal â rhai pobl eraill (er enghraifft, drwy gyfrwng caneuon, storïau a chwarae rôl). Gall hyn helpu dysgwyr ifanc i ddeall mwy amdanynt eu hunain, yn ogystal ag am brofiadau a safbwyntiau, a allai fod yn wahanol i'w rhai eu hunain.

Gall amgylchedd cefnogol, meithringar, lle gall dysgwyr ddysgu am y gwahaniaethau a'r tebygrwydd sydd rhyngddynt â'i gilydd, eu helpu i ddechrau datblygu perthynas barchus â phobl ac ymdeimlad o gyfrifoldeb. Gallant ddechrau archwilio iaith hawliau a dechrau deall eu hawl i gredu gwahanol bethau a dilyn credoau gwahanol. Drwy hyn, gall dysgwyr o oedran cynnar ddechrau adnabod a deall sut y gallai eu gweithredoedd effeithio ar eraill, a dysgu myfyrio ar eu safbwyntiau eu hunain a'u hailystyried, fel y bo'n briodol.

I bob dysgwr ym mhob lleoliad, rhaid i gynllun y cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sicrhau bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn amryfath.

### **Addysg heblaw mewn ysgol**

Mae gan bob dysgwr hawl i addysg. Wrth ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion eu dysgwyr, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg heblaw mewn ysgol (EOTAS), gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, roi sylw i'r cydrannau cwricwlwm gorfodol, sy'n cynnwys

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a sicrhau eu bod yn cael eu darparu cyn belled ag y byddai hynny'n rhesymol bosibl ac yn briodol i'r dysgwr unigol.

Dylai profiadau dysgwyr eu galluogi i archwilio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes y Dyniaethau, gan ddefnyddio'r gwahanol is-lensys mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a ddarperir yn y canllawiau hyn. Nid yw'n ofynnol i leoliadau o'r fath ddarparu'r maes llafur cytûn. Fodd bynnag, rhaid i'r addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir yn y lleoliadau hyn fodloni'r gofyniad amryfath o hyd.

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion deddfwriaethol ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Addysg Heblaw Mewn Ysgol i'w gweld yn [adran ddeddfwriaethol](#) y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

### 13. Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn cynnwys 'dyletswydd i hybu gwybodaeth am Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant a hawliau pobl ag anableddau a dealltwriaeth o'r Confensiynau hynny'. Mae'n hanfodol, pan fydd ysgolion yn datblygu eu cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, eu bod nid yn unig yn ymgorffori cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ond hefyd bod dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r themâu trawsbynciol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, a welir [yma](#) yn categoreiddio tair elfen o addysg hawliau dynol, a dylid ymgorffori pob un ohonynt yn y cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

1. Dysgu am hawliau dynol – mae'n ymgorffori deall hawliau dynol a ffynonellau'r hawliau hynny, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.
2. Dysgu drwy hawliau dynol – mae'n ymwneud â datblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy'n adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol.
3. Dysgu er mwyn hawliau dynol – mae'n ymwneud ag ysgogi gweithredu cymdeithasol a grymuso dinasyddiaeth weithredol i ddatblygu parch at hawliau pawb.

Mae'r maes llafur hwn wedi'i gynllunio gyda'r ystyriaethau hyn o hawliau dynol mewn golwg.

#### 14. Cymru wrth-hiliol

Dylai'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sicrhau ei fod yn cadw at Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol [Cymru](#) er mwyn caniatáu i ddysgwyr yn Sir Gaerfyrddin ymwneud â gwahanol brofiadau hanesyddol, hiliol, diwylliannol ac ethnig. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddysgu am storïau am bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a dylid ategu hyn â chwricwlwm sy'n dangos dealltwriaeth o wrth-hiliaeth ac sy'n herio stereoteipiau a normau niweidiol.

#### 15. Cynefin

Caiff Cynefin ei nodi yn fframwaith Cwricwlwm Llywodraeth Cymru fel naratif a ddylai dreiddio drwy'r holl brofiadau dysgu a ddarperir i ddysgwyr. Nid lle mewn ystyr ddaearyddol yn unig yw Cynefin, ond lle o arwyddocâd diwylliannol, cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi siapio'r gymuned sy'n preswyllo ynddo ac sy'n parhau i wneud hynny. Mae yna lawer o gyfleoedd gwyb i blethu'r thema cynefin i mewn i gwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg/Dyniaethau. Byddai'r rhain yn cynnwys Eglwys a mynwent Sant Martin, Skanda Vale, Eglwys Llandyfeisant ac adfeilion Abaty Hendy-gwyn ar Daf. Mae llawer o adnoddau ar gael i helpu gyda hyn, gan gynnwys [Land of Legends \(en-GB\)](#) ac [Ashram, temples & hospice - Skanda Vale](#)

Bydd cynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu hardaloedd lleol yn cynnig dealltwriaeth gyfoethog a gwerthfawr o'u cynefin a dangos sut y mae'r mythau, y chwedlau a'r safleoedd sanctaidd a diwylliannol wedi helpu i lunio eu cymuned a'r rhyngweithio rhyngddi â chymunedau ehangach, y genedl a'r byd. Un dull a argymhellir o ddatblygu cynefin o fewn Sir Gaerfyrddin fyddai'r dull 'traed, cam, naid' a fydd yn caniatáu i ddysgwyr ddeall eu diwylliant cyfagos a'u cyd-destun lleol a'r modd y mae'n berthnasol i'r cyd-destun ehangach. Cysylltwch â [Chyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#) Sir Gaerfyrddin am gyngor os oes angen.

#### 16. Datblygiad Ysbrydol

Bydd datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn cael ei ddatblygu drwy'r cwricwlwm cyfan a gynlluniwyd ac a fabwysiadwyd gan bob ysgol unigol. Ynghyd â phob maes arall o'r cwricwlwm, bydd disgwyl i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg wneud cyfraniad

at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, nid yw'n ddyletswydd neu'n gyfrifoldeb Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unig.

Mae'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhoi eglurder ynghylch sut y gall Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gyfrannu at hyn [yma](#).

### 17. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg 3-16

Yr hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau.

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn orfodol a rhaid eu hymgorffori nid yn unig yng nghynllun y cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Dyniaethau ond hefyd yn y cyfleoedd dysgu ac addysgu a'r profiadau a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr. Mae'r côd i'w weld [yma](#).

1. Mae holi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, y presennol a'r dyfodol.
2. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu gweld, eu dehongli a'u cynrychioli mewn ffyrdd gwahanol.
3. Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddynamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
4. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac wedi'u siapia gan weithredoedd a chredoau dynol.
5. Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymwneud â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.

### Cynllunio cwricwlwm gwrthrychol, beirniadol ac amryfath

Rhaid i gynllun y cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gadw at y ddeddfwriaeth, a dylai roi sylw i [ganllawiau](#) Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r maes llafur hwn sef maes llafur cytûn lleol Sir Gaerfyrddin.

Er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr yn datblygu llythrennedd crefyddol ac yn dod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus yn Sir Gaerfyrddin, Cymru a'r byd, dylent gael mynediad at y wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau craidd fel y nodir yn y tablau cryno. Datblygwyd y rhain i sicrhau y gall ysgolion gynllunio eu cwricwla Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn

caniatáu dysgu sbiral a chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgema eu hunain yn systematig. Bydd gan ysgolion ddatganoliaeth gyda golwg ar weithredu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau craidd yng nghynlluniau eu cwricwlwm.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o gynllunio'r cwricwlwm, dylai'r pwyntiau canlynol gael eu hystyried gan ysgolion a lleoliadau wrth gynllunio eu cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

- Dylai Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg rhagorol gynnwys argyhoeddiadau athronyddol/byd-olygon crefyddol ac anghrefyddol a rhaid i'r rhain gael eu cynrychioli'n deg ac yn gywir.
- Mae cyd-destun lleol yn bwysig mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae hyn yn cynnwys cyd-destun yr ysgol a'r fro yn ogystal â gwybodaeth a phrofiad y dysgwyr a'r athrawon. Mae gan ysgolion ddatganoliaeth, a'r rhyddid i wneud dewisiadau cwricwlwm yn ôl eu lleoliad penodol.
- Bydd addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg rhagorol yn cael ei rhedeg ar draws pob cyfnod i ganiatáu i ddysgwyr wneud cynnydd cyson drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

#### Tablau crynhoi gwybodaeth, sgiliau a phrofiad a argymhellir

Dylid defnyddio'r crynodebau o wybodaeth, sgiliau a phrofiad a argymhellir ochr yn ochr â phedwar diben y cwricwlwm a datganiadau'r Dyniaethau o'r hyn sy'n bwysig i adeiladu'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd y wybodaeth graidd, alluogol hon nid yn unig yn datblygu llythrennedd crefyddol o fewn ein dysgwyr, ond hefyd yn eu cynorthwyo i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus yn Sir Gaerfyrddin, Cymru a'r byd.

Cadwyd yr argymhellion o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiad allweddol i isafswm er mwyn caniatáu i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu hunain, sy'n gweddu i'w cyd-destun ac sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr, yn ogystal â sicrhau dealltwriaeth ddofn o'r cysyniadau, y dysgeidiaethau, y credoau a'r arferion crefyddol ac anghrefyddol. Nid yw'r tablau crynhoi gwybodaeth, sgiliau a phrofiad a argymhellir wedi'u bwriadu i'w defnyddio fel cynllun gwaith cyflawn neu rannol, dim ond fel pwynt i gyfeirio ato wrth gynllunio'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd hyn yn sicrhau bod y dysgwyr yn cael gwybodaeth grefyddol gyfoethog, bwerus a galluogol. Gall ysgolion ymarfer datganoliaeth a chreu eu crynodebau eu hunain o wybodaeth, sgiliau a phrofiad yn seiliedig

ar eu cwricwlwm eu hunain a gynlluniwyd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Pan fydd hyn yn digwydd, rhaid i ysgolion sicrhau bod y wybodaeth graidd yn cael ei darparu o leiaf â'r un trylwyredd academiaidd â'r rheiny a argymhellir yma.

- Mae llythrennedd crefyddol yn hanfodol os yw dysgwyr am fodloni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, a chyda hyn mewn golwg, mae'r disgwyliadau canlynol felly yn rhan gynhenid o'r maes llafur hwn. Erbyn eu bod yn 14 oed, bydd dysgwyr wedi datblygu gwybodaeth am ystod eang o grefyddau a chredoau sy'n cwmpasu'r crefyddau Abrahamig, traddodiadau Dharmig yn ogystal â mathau eraill o greddoau crefyddol, yn enwedig y rheiny a ddelir gan gymunedau o fewn Abertawe, a dealltwriaeth ohonynt.
- ystod o fyd-olygon anghrefyddol yn ogystal ag argyhoeddiadau athronyddol.

Dylai'r cwricwlwm a'r dewisiadau sy'n cael eu gwneud adlewyrchu traddodiadau'r ysgol, y gymuned leol a Chymru, gan hefyd roi ystyriaeth i'r darlun byd-eang. Gweler pwynt 1o am grynodedb deddfwriaethol.

Gan fod gan y Cwricwlwm i Gymru ddisgwyliadau yn ymwneud â chyfnodau, yn hytrach nag oedran, bydd cwricwlwm pob ysgol yn gwbl gynhwysol (yn seiliedig ar ganllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r maes llafur cytûn hwn). Rhaid cynllunio'r cwricwlwm mewn modd sy'n sicrhau bod y dysgwyr yn cael profiadau dysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg cyfoethog a chadarn sy'n caniatáu i bob dysgwr wneud cynnydd trwy gwricwlwm sbiral 3-16.

Disgwylir i athrawon ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd gydweithio a chyd-lunio'r hawl hwn o barhad dysgu i bob dysgwr.

Mae gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau wedi'u nodi ar gyfer Cristnogaeth, pum prif grefydd Bwdhaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth a Sikhiaeth, un argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol (Dyneiddiaeth) ac un argyhoeddiad athronyddol (Feganiaeth Foesegol) yn ogystal â Gwerthoedd a Moeseg. Nid yw hyn yn atal unrhyw grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol eraill rhag cael eu hastudio.

Mae Maes Llafur Cytûn Lleol Sir Gaerfyrddin, yn unol â'r ddeddfwriaeth, yn ei gwneud yn ofynnol:

- Y dylid astudio Cristnogaeth ar draws pob cyfnod dilyniant.
- Dylid astudio'r prif grefyddau eraill a gynrychiolir yn Sir Gaerfyrddin ac yn genedlaethol (a nodir yma fel Bwdhaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth a Sikhiaeth) ar draws y cyfnodau dilyniant.
- Dylid astudio argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, megis Dyneiddiaeth, anffyddiaeth a sgeptigaeth ar draws y cyfnodau dilyniant.
- Dylid astudio argyhoeddiadau athronyddol, megis Feganiaeth Foesegol a Heddychiaeth ar draws y cyfnodau dilyniant.
- Gellir astudio crefyddau a byd-olygon eraill hefyd a gynrychiolir yn Sir Gaerfyrddin ac yn genedlaethol, megis y ffydd Baha'i, Jainiaeth a Zoroastriaeth.

Cysylltwch â [Chyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#) Sir Gaerfyrddin am unrhyw gymorth sydd ei angen o ran gwybodaeth bynciol, adnoddau a / neu addysgeg.

Ochr yn ochr â dogfennau'r Cwricwlwm i Gymru, bydd y tablau crynhoi gwybodaeth, sgiliau a phrofiad yn gosod sail i ysgolion ac ymarferwyr siapio a datblygu eu cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a fydd yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn amryfath, a'u cynlluniau dysgu.

## ARGYMHELLION AR GYFER GWYBODAETH, SGILIAU A PHROFIADAU

*Bwriad yr argymhellion hyn yw bod yn gymorth i gynllunio cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg lle mae dysgwyr yn caffael gwybodaeth gynyddol soffistigedig am gredoau, arferion a gwerthoedd crefyddol ac anghrefyddol a dealltwriaeth ohonynt. Ni fwriedir iddynt fod yn gyfarwyddol neu'n gyflawn, ac ni ddylid eu defnyddio, ynddynt ac ohonynt eu hunain, fel cynllun dysgu. Gall y rheiny sy'n cael y cyfrifoldeb o gynllunio'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ddefnyddio'r argymhellion hyn mewn modd hyblyg neu gynllunio model dilyniant sydd o leiaf yn gyfwerth o ran her academaidd a chywirdeb.*

*Mae'r argymhellion yn caniatáu i'r 7 o is-lensys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael eu harchwilio. Efallai y bydd cynllunwyr y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn dymuno bod yn ymwybodol o'r is-lensys fel y'u nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar [Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#).*

| Crefyddau<br>Abrahamig | Gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau a argymhellir                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                        | Cam dilyniant 1                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Cam dilyniant 2                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Cam dilyniant 3                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Cristnogaeth           | <ul style="list-style-type: none"> <li>Beth mae'r term 'Cristion' yn ei olygu?</li> <li>Un Duw – hollwybodus, hollgariadus, hollalluog</li> <li>Duw fel Creawdwr</li> <li>Iesu fel Mab Duw (yr ymgawdoliad)</li> <li>Yr Adfent a'r Nadolig</li> <li>Eglwys yn y gymuned leol (cysylltiadau posibl ag Astudiaethau Cymdeithasol)</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Yr Eglwys – pwysigrwydd fel addoldy, cynulliad a chymuned - nodweddion allweddol, e.e. allor, bedyddfaen – gwahanol fathau o eglwysi</li> <li>Syniad sylfaenol o'r Drindod</li> <li>Y Beibl</li> <li>Defodau - Bedydd, Cymun</li> <li>Dysgeidiaeth allweddol yr Efengyl, e.e. damhegion a gwyrtiau'r Iesu</li> <li>Agape (cariad diamod fel y'i dysgir gan yr Iesu)</li> <li>Addoliad a gweddi Cristnogol</li> <li>Cefndir syml Cristnogaeth yng Nghymru (cysylltiadau cryf â Hanes ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau), er enghraifft Dewi Sant, y Diwygiad yng Nghymru (Casllwchwr)</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Y Creu a'r Cwmp yn Genesis 1 a dehongliadau</li> <li>Wythnos y Pasg gan gynnwys y Swper Olaf, y croeshoeliad, yr atgyfodiad</li> <li>Y Grawys a'r Pasg</li> <li>Y Pentecost a rôl yr Ysbryd Glân</li> <li>Yr Eglwys fel Corff Crist – cymuned fyd-eang o Gristnogion</li> <li>Enghreifftiau o ddysgeidiaeth a gwerthoedd Cristnogol ar waith</li> <li>Deall bod llawer o wahanol ffyrdd o fod yn Gristnogion (enwadau)</li> </ul> |
| Islam                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Beth mae'r term 'Mwslim' yn ei olygu?</li> <li>Un Duw fel un annisgrifiadwy – Allah</li> <li>Muhammad fel y proffwyd olaf a'r mwyaf (o 25 o broffwydi)</li> <li>Eid ul Fitr ac Eid ul Adha</li> <li>Y lleud a'r seren a'i symboliaeth i Fwslimiaid</li> <li>Y mosg yn y gymuned leol</li> </ul>     | <ul style="list-style-type: none"> <li>Y Mosg fel ffocws pwysig ar gyfer addoli, nodweddion allweddol, e.e. wal Qibla, y Minarét</li> <li>Y Quran, ei ddatguddiad i'r Proffwyd Muhammad a'i bwysigrwydd i Fwslimiaid</li> <li>Bywyd a dysgeidiaeth Muhammad</li> <li>Cefndir syml Islam yng Nghymru (cysylltiad â Hanes ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau)</li> <li>Defodau – Aqiqah, Bismillah</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                             | <ul style="list-style-type: none"> <li>Proffwydi Islam, gan gynnwys Adda, Abraham, yr Iesu a Muhammad</li> <li>Rôl a phwysigrwydd yr ummah</li> <li>Pum piler Islam a'u canolrwydd i fywyd Mwslimiaid</li> <li>Y jihad mwyaf a llai</li> <li>Gwahanol grwpiau o Fwslimiaid - Islam Sunni, Shi'a a Sufi</li> </ul>                                                                                                                                                        |

|                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|                                      | Cam dilyniant 4                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Cam dilyniant 5                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|                                      | Dyneiddiaeth <ul style="list-style-type: none"> <li>Dealltwriaeth o'r lle sydd gan dystiolaeth ffeithiol a chynnydd gwyddonol yn ein bro, Cymru a'r byd.</li> <li>Mathau o anffyddiaeth, 'yr anffyddwyr newydd', gwrth-theistiaid</li> <li>Seciwlariaeth, sgeptigaeth.</li> <li>Datblygu ein safiad personol ar faterion gwleidyddol a moesol cyfredol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.</li> <li>Ymreolaeth foesegol a moeseg sefyllfaol</li> <li>Anffyddwyr dylanwadol – Richard Dawkins, Stephen Fry</li> </ul> | Archwilio sut y gallai Dyneiddwyr gymhwyso eu credoau a'u gwerthoedd i gwestiynau sy'n gysylltiedig â dadleuon moesegol, er enghraifft, erthyliad, ewthanasia, rhyfel, hawliau anifeiliaid a'r amgylchedd.<br><br>Archwilio rhai enghreifftiau pellach o fyd-olygon anghrefyddol (gweler ar y chwith) |
| Unedau awgrymedig / ymholiadau sampl | Blwyddyn 7: Beth yw crefydd? A fydd crefyddau'n tyfu neu'n marw yn ystod y 50 mlynedd nesaf? (Byd-olygon Hindŵaidd, Cristnogol, Mwslimaidd, Anghrefyddol)<br>Blwyddyn 9: A yw crefydd yn rym dros heddwch neu'n achos gwrthdaro? Safbwyntiau Cristnogol, Mwslimaidd a Sikhaid gan gyfeirio at Fyd-olygon Anghrefyddol.                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| Man gorffen – llythrennedd crefyddol | Y disgwyliad o fewn y maes llafur hwn yw y bydd dysgwyr, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, wedi astudio amrywiaeth eang o gredoau a thraddodiadau crefyddol sy'n cynnwys crefyddau Abrahamig, traddodiadau Dharmig, argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, yn ogystal ag argyhoeddiadau athronyddol. Dylai'r cwricwlwm a'r dewisiadau sy'n cael eu gwneud adlewyrchu traddodiadau'r ysgol, y gymuned leol a Chymru.                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |

| Argyhoeddiadau Athronyddol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau a argymhellir                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Cam dilyniant 4                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Cam dilyniant 5                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| <p>Mae'r argymhellion hyn yn seiliedig ar Feganiaeth Foesegol. Dylai cynllunwyr y cwricwlwm fod yn ymwybodol bod argyhoeddiadau athronyddol yn amrywiol a dylent ystyried dysgu amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol fel y'u nodir yng <a href="#">nghrynodeb deddfwriaethol Llywodraeth Cymru</a>.</p> <p>Mae'r canllawiau hefyd yn cyfeirio at heddychiaeth a gwrthwynebiad egwyddorol i wasanaeth milwrol ond nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.</p> | <p>Feganiaeth Foesegol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dealltwriaeth o'r lle sydd gan feganiaeth foesegol yn ein bro, Cymru a'r byd.</li> <li>• Datblygu ein safiad personol ar feganiaeth foesegol fel ffordd o fyw.</li> <li>• Effaith byw bywyd fel fegan moesegol</li> <li>• Dadansoddi dylanwad feganiaeth foesegol yn ein bro, Cymru a'r byd.</li> <li>• Feganiaeth foesegol a'r crefyddau Abrahamig</li> <li>• Feganiaeth foesegol a'r crefyddau Dharmig</li> <li>• Feganiaid moesegol dylanwadol – Ellen DeGeneres, Joaquin Phoenix, Serena a Venus Williams</li> <li>• Rhywogaethiaeth (Peter Singer) – pam mae rhai rhywogaethau'n cael eu trin yn wahanol i eraill, er eu bod yn debyg o ran deallusrwydd a phatrymau ymddygiad?</li> </ul> | <p>Archwilio sut y gallai Feganiaid Moesegol gymhwyso eu credoau a'u gwerthoedd i gwestiynau sy'n gysylltiedig â dadleuon moesegol, er enghraifft, erthyliad, ewthanasia, rhyfel, hawliau anifeiliaid a'r amgylchedd</p> <p>Archwilio rhai enghreifftiau pellach o argyhoeddiadau athronyddol (gweler ar y chwith)</p> |
| Unedau awgrymedig / ymholiadau sampl                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | I ddilyn                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| Man gorffen – llythrennedd crefyddol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Y disgwyliad o fewn y maes llafur hwn yw y bydd dysgwyr, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, wedi astudio amrywiaeth eang o gredoau a thraddodiadau crefyddol sy'n cynnwys crefyddau Abrahamig, traddodiadau Dharmig, argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, yn ogystal ag argyhoeddiadau athronyddol. Dylai'r cwricwlwm a'r dewisiadau sy'n cael eu gwneud adlewyrchu traddodiadau'r ysgol, y gymuned leol a Chymru.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |

## Gwerthoedd a Moeseg

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Cam dilyniant 1                                                                                                                                                                | Cam dilyniant 2                                                                                                                            | Cam dilyniant 3                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Cam dilyniant 4                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Cam dilyniant 5                                                                                                                                                                                                                                 |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Mae gwerthoedd a moeseg yn tanategu'r holl syniadau a gwybodaeth allweddol a nodwyd fel argymhellion. Ni fwriedir defnyddio'r crynodeb hwn fel uned ar wahân o waith, dim ond fel pwynt i gynllunwyr y cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gyfeirio ato fel ffyrdd y byddai dysgwyr yn gwneud cynnydd mewn gwerthoedd a moeseg. | <p>Beth sydd gan y disgyblion yn eu bywydau sy'n bwysig?</p> <p>Pa fath o bethau y gallen nhw eu gwneud i ddangos eu bod nhw'n bwysig?</p>                                     | <p>A yw'r disgyblion yn gallu mynegi eu gwerthoedd?</p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu adnabod gwerthoedd pobl eraill a myfyrio arnynt?</p> | <p>Hanes y gwerthoedd</p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu gweld bod gwerthoedd yr ysgol yn deillio o werthoedd Cristnogol?</p> <p>Sut gallai'r rhain fod yn wahanol i werthoedd Mwslimaidd / Hindŵaidd / Dyneiddiol?</p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu darllen am werthoedd a myfyrio arnynt a gwybod beth sydd wedi dylanwadu ar y gwerthoedd hyn?</p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu gweld bod Cristnogaeth wedi siapio gwerthoedd Cymru heddiw?</p> | <p>Astudiaethau achos o faterion i archwilio gwerthoedd a moeseg, er enghraifft ecolegol / feganiaeth / rhyddid barn / hunaniaeth/ rhywedd / ffeministiaeth. Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg orfodol yn yr ysgol.</p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu myfyrio ar faterion moesegol o gefndir crefydd wahanol / di-grefydd?</p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu dadlau achos moesegol?</p> | <p>Cwestiynau athronyddol</p> <p>A yw moeseg bob amser yn oddrychol?</p> <p>A yw'n bosibl cael moeseg wrthrychol?</p> <p>Beth yw moeseg?</p> <p>Oes angen Duw arnoch i fod yn foesebol?</p> <p>Perthynolaeth foesol ac absoliwtiaeth foesol</p> |
| Profiadau<br>Taith ddysgu<br>Is-lens                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Dylid ymgorffori gwerthoedd a moeseg yn y teithiau dysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (gweler y canllawiau) a / neu'r unedau awgrymedig / ymholiadau sampl (gweler yr atodiad) |                                                                                                                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                 |

|                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|-----------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Man gorffen –<br>llythrennedd crefyddol | Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth am grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol a'u dealltwriaeth ohonynt, a gallu cynnal sgysiau a thrafodaethau cytbwys a gwybodus. Bydd dysgwyr sy'n llythrennog yn grefyddol yn cael eu galluogi i gymryd eu lle yn hyderus yn ein cymdeithas aml-grefyddol ac aml-seciwlar amrywiol, byddant yn gallu meddwl yn annibynnol, bod yn fyfyriol a gwerthuso'n deg ac yn feirniadol. |
|-----------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

### 18. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg 14-16

Mae addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3-16 oed. Rhaid darparu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym mlynnyddoedd 10 ac 11 i alluogi dysgwyr i ddatblygu llythrennedd crefyddol digonol er mwyn iddynt gyflawni pedwar diben y cwricwlwm. Er nad oes gofyniad cyfreithiol i sefyll arholiad cyhoeddus neu ddilyn cwrs allanol mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, dylai'r dysgwyr gael y cyfle, cyn belled ag y bo modd, i gael yr hyn y maent wedi'i ddysgu am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i achredu. Byddai'r cymhwyster TGAU CBAC yn bodloni dibenion y cwricwlwm yn ogystal â sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu llythrennedd crefyddol trwy gael darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn amryfath. Os defnyddir darpariaeth amgen ym mlynnyddoedd 10 ac 11, rhaid bod yn ofalus i sicrhau bod y cwricwlwm yn cyflawni'r pedwar diben, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'i fod yn darparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn amryfath.

### 19. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg 16-19

Nid yw adran 61 o'r Ddeddf yn atal ysgol rhag gosod gofyniad bod pob dysgwr yn ei chweched dosbarth yn ymgymryd â dosbarthiadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gorfodol; ac nid yw ychwaith yn atal ysgol sy'n mabwysiadu'r dull hwn rhag darparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg orfodol i'r chweched dosbarth sy'n cyd-fynd â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol, neu ddaliadau ei chrefydd, neu enwad crefyddol ("Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol"). Mae cynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol o'r fath yn parhau i fod yn fater i'r ysgol gyda'r cwricwlwm yn cael ei gynllunio yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd.

Lle ceir darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, dylid cynllunio'r cwricwlwm i wella ac ehangu'r cyfleoedd addysgol a dysgu ar gyfer pob dysgwr. Byddai amrywiaeth o gyfleoedd o fudd i'r ddarpariaeth ar gyfer astudio ôl-16, yn dibynnu ar anghenion a gofynion yr ysgol.

Dylid cynnig cwrs achrededig, megis Uwch-gyfrannol a Safon Uwch mewn Astudiaethau Crefyddol. Dylid rhoi cyfle i ddysgwyr gyd-lunio eu dysgu eu hunain a allai gwmpasu crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol/astudiaethau byd-olwg, ochr yn ochr â phynciau moesegol

ac athronyddol. Gallai'r ddarpariaeth fod ar ffurf gwersi wedi'u hamserlennu, cynadleddau, gweithgareddau cyfoethogi neu brosiectau.

## 20. Cynnydd ac Asesu

Mae [dilyniant dysgwyr](#) yn sbardun pwysig ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn y [disgrifiadau o ddysgu ar gyfer y Dyniaethau](#), sy'n helpu i roi arweiniad manylach i ymarferwyr.

Mae'r [Côd](#) Dilyniant yn rhoi egwyddorion cyffredinol a fydd yn sail i ddilyniant ar draws pob Maes Dysgu. Gyda golwg ar y Dyniaethau, mae'r egwyddorion dilyniant canlynol yn darparu gofyniad gorfodol o sut y bydd dilyniant yn edrych ar gyfer dysgwyr:

- (a) Cynyddu effeithiolrwydd fel dysgwr.
- (b) Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth.
- (c) Dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn Meysydd.
- (d) Mireinio a meithrin soffistigeiddrwydd wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau.
- (e) Gwneud cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd.

Bydd cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i strwythuro'n ofalus, sy'n drylwyr ac sy'n llawn gwybodaeth a sgiliau yn sicrhau y bydd cynnydd yn cael ei wneud dros amser ar gyfer pob dysgwr. Dylai asesu felly fod yn rhan gynhenid o gynllunio cwricwlwm ac addysgeg. Mae'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhoi teithiau [dysgu](#) awgrymedig ar gyfer pob un o'r is-lensys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd o gymorth i ddilyniannu'r cwricwlwm wrth sicrhau y bydd dilyniant yn cael ei wneud.

Atodiad:

Geirfa

|                       |                                                                                                                                                                                                                                                            |
|-----------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Maes Llafur Cytûn     | Y ddogfen sy'n nodi beth y dylid ei ddysgu o fewn Addysg Grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ardal awdurdod lleol. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw llunio a monitro Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. |
| Maes Dysgu a Phrofiad | Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Y meysydd hyn yw: Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Gwyddoniaeth a Thechnoleg.                             |
| Safon Uwch            | Cymhwyster seiliedig ar bwnc sydd fel arfer (er nad bob amser) yn cael ei astudio yn y flwyddyn olaf mewn ysgol / coleg.                                                                                                                                   |
| Safon Uwch Gyfrannol  | Mae Safon Uwch Gyfrannol (UG) yn gymhwyster uwch y gall myfyrwyr ei astudio ar ôl cwblhau eu harholiadau TGAU                                                                                                                                              |
| TGAU                  | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd.                                                                                                                                                                                                                    |
| RVE                   | Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg                                                                                                                                                                                                                               |
| CYSAG (SACRE)         | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a'i brif gyfrifoldeb yw goruchwyllo Addysg Grefyddol yn yr awdurdod lleol.                                                                                                                                 |
| SACRVE                | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg – yr enw newydd ar gyfer CYSAG o fis Medi 2022.                                                                                                                                                |
| SMSC                  | Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.                                                                                                                                                                                                  |
| CBAC                  | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru - y bwrdd arholi sy'n darparu arholiadau, adnoddau a dysgu proffesiynol i ysgolion ac athrawon Cymru.                                                                                                                            |
| WMS                   | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - y gofynion gorfodol ar gyfer y rheiny sy'n cynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu.                                                                                                                                  |

Enghreifftiau o unedau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru

Mae pob uned wedi'i mapio, gan ddefnyddio pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a chamau dilyniant Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a rhoi cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsbynciol. Nid yw'r unedau yn gyfarwyddol ond byddant yn darparu enghreifftiau o gynlluniau o ansawdd uchel a fydd yn ategu addysg wrthrychol, beirniadol ac amryfath mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac maent wedi'u hysgrifennu i gyd-fynd â maes llafur cytûn Sir Gaerfyrddin ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Gellir cyrchu'r gyfres o gynlluniau ac adnoddau dysgu yma.

Taith ddysgu – Blwyddyn 1: Defnyddio storïau Cristnogol i ddatblygu dealltwriaeth o werthoedd allweddol. Sut mae Cristnogion yn dysgu gan yr Iesu am ofal, maddeuant, cymuned, dilyn Duw?

Taith ddysgu – Blwyddyn 2: Dathliadau/Gwyliau (Hindŵiaid, Cristnogion, Mwslimiaid)

Taith ddysgu – Blwyddyn 3: Symbolau ffydd ac arwyddion o berthyn: Pam eu bod yn bwysig? (Perthyn i Hindŵiaid, Cristnogion, Mwslimiaid)

Taith ddysgu – Blwyddyn 5: Gwerthoedd: beth sydd bwysicaf i Ddyneiddwyr a Christnogion?

Taith ddysgu – Blwyddyn 7: Beth yw crefydd? A fydd crefyddau'n tyfu neu'n marw yn ystod y 50 mlynedd nesaf? (Byd-olygon Hindŵiaid, Cristnogol, Mwslimaidd, Anghrefyddol)

Taith ddysgu – Blwyddyn 9: A yw crefydd yn rym dros heddwch neu'n achos gwrthdaro? Safbwyntiau Cristnogol, Mwslimaidd a Sikhaid gan gyfeirio at Fyd-olygon Anghrefyddol.

### Cydnabyddiaethau

Yr aelodau canlynol o CYSAG a gyfrannodd at y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn.

#### Pwyllgor A

Reverend Aled Jones

Mrs Christine Rees

Reverend Delyth Richards

Mrs Helen Gibbon,

Mr Howard Jones

#### Pwyllgor B

Mrs Amy Lancett,

#### Pwyllgor C

Cllr Martyn Palfreman

Cllr Dot Jones

#### Ymgynghorydd yr Awdurdod Lleol

Mrs Jennifer Harding-Richards

#### Swyddog yr Awdurdod Lleol

Mrs Marian Morgan

#### Clerc CYSAG

Ms Carys James

#### Ymgynghorydd Allanol

Mrs Angela Hill

Y cydweithwyr canlynol a fu o gymorth gyda deunydd ategol a / neu a roddodd gyngor ar gyfer y maes llafur cytûn

Yr Athro Linda Woodhead MBE

Mr Lat Blaylock